PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 156 | Rhif 45 | Tachwedd 9, 2023 | 50c.

## Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf â Vikki, Alun, Gwilym a Lowri Tudur a'r teulu. Bu farw mam Vikki, Betty Pierce (o Lanrwst ond bellach o Gaerdydd) yn ystod y dyddiau diwethaf. Boed i'r Arglwydd eu cynnal yn eu hiraeth.




Mae pob dydd Sul (pob dydd, yn wir) yn Sul i gofio Iesu Grist. Petai pobl yn wirioneddol gofio geiriau Iesu ac yn dilyn ffordd Tywysog Tangnefedd ni fyddai angen Sul arbennig bob blwyddyn i gofio'r rhai a fu farw mewn rhyfeloedd – neu i fod yn benodol, y milwyr a laddwyd. Y gwirionedd yw bod llawer mwy o bobl gyffredin yn cael eu lladd mewn rhyfeloedd, fel rydym yn tystio gydag arswyd heddiw yn Gaza a chyn hynny yn Israel.

### Cofio mai'r Eglwys yw Corff Crist

'Gwnewch hyn er cof amdanaf' oedd gorchymyn Iesu i'w ddisgyblion yn ystod y Swper Olaf. Ond beth yw natur ein cofio, yn enwedig wrth Fwrdd y Cymun? Rhywbeth defodol a sentimental, neu achlysur i ddiolch am achubiaeth bersonol? Awgrymaf ei fod yn rhywbeth anfeidrol fwy na hynny! Os ydym o ddifri yn derbyn mai'r eglwys yw 'corff Crist' yn y byd heddiw, yna mae cyfrifoldeb arnom i weithredu fel y byddai Iesu o Nasareth am wneud petai ef yma yn bresennol yn ei berson.

### Dyletswydd y Cristion

Onid ni, sy'n meiddio arddel ei enw trwy alw ein hunain yn Gristnogion, yw ei glustiau i glywed cri y rhai sydd mewn angen o bob math, ei lygaid i weld pobl sy'n dioddef cam, ei dafod i godi llais yn erbyn pob anghyfiawnder, a'i ddwylo i wneud ei waith? Ac oni roddwyd yr Ysbryd Glân i ni fel grym gweithredol i wneud hynny? Os felly, beth sydd i'w wneud, beth i'w ddweud, wrth wylio dwy genedl yn ymarfer y fath gasineb a chreulondeb, a hynny yn y wlad lle cerddodd Duw ei hun ddwy fil o flynyddoedd yn ôl? Un peth sy'n beryglus i'w wneud yw cymryd ochr wleidyddol. Daw geiriau Waldo am ei rieni yn ei gerdd fawr 'Y Tangnefeddwyr' i'r cof:

Cenedl dda a chenedl ddrwg
Dysgent hwy mai rhith yw hyn ...

### Llewyrchu goleuni Crist

Dim ond 'goleuni Crist' all ein rhyddhau ni o gasineb rhyfel, meddai Waldo. Ond sut mae dechrau llewyrchu goleuni Crist i dywyllwch yr uffern yn Gaza – tywyllwch sy'n cael ei oleuo'n unig gan fflachiadau'r bomiau anferth? Ynghanol y brwydro rhwng ymladdwyr Hamas a milwyr Israel, mae yna 'drydedd ochr' sy'n dioddef yn anfeidrol fwy na neb arall yn y gwrthdaro erchyll. Mae miloedd o bobl gyffredin, gan gynnwys nifer fawr o blant, wedi marw yn y bomio ac ymhell dros filiwn wedi colli eu cartrefi. A rhywle yng nghanol y cyfan mae'r bobl ddiniwed gafodd eu cipio o'u cartrefi gan Hamas a'u cadw'n wystlon.

### Dau gyfrwng gweithredu

Hawdd fyddai teimlo'n hollol ddiymadferth wrth wylio'r cyfan sy'n digwydd ar y newyddion. Ond diolchwn fod gennym ddau gyfrwng i'w defnyddio yn y sefyllfa ofnadwy hon. Yn gyntaf, gweddïo'n daer ar y Creawdwr Mawr y mae'r Iddewon a'r Moslemiaid hefyd yn credu ynddo, yn eu gwahanol

*parhad ar dudalen 2*

## YMATEB ANHYGOEL I GLWB PLANT CRISTNOGOL NEWYDD!



Bydd llawer o ddarllenwyr y *Tyst* yn gwybod pa mor anodd yw hi i gael un plentyn newydd i'r Ysgol Sul.

Ac felly roedd hi yn y Tabernacl, Hendy-gwyn chwe mis yn ôl.

Yna fe benderfynodd yr athrawon a'r rhieni arbrofi gyda rhywbeth newydd sef cynnal Clwb Hwyl ar nos Wener ar ôl ysgol. Rydym yn cwrdd â'r plant wrth gatiau'r ysgol ac yn cerdded gyda nhw'r cwarter milltir i'r capel. Yna yn dilyn rhywbeth i'w fwyta mae'r plant yn cael storiâu o'r Beibl ac yn gwneud gweithgareddau yn seiliedig ar y storiâu.

Ac mae'r ymateb wedi bod yn anhygoel gyda dros ugain o blant yn dod yn wythnosol.

Duw sydd yn rhoddi pob tyfiant, medd yr Apostol Paul, ac rydym yn diolch i Dduw am yr hyn sydd wedi digwydd y misoedd diwethaf yma.

Mae'n rhoi gobaith i ni gyd.

Yn y llun gwelir plant y clwb a'u rhieni yn arwain Cwrdd Diolchgarwch y Plant ganol mis Hydref.

**Guto Llywelyn**

# SUT MAE COFIO CRIST AR SUL Y COFIO? – *parhad*

ffyrdd, i ymyrryd ym meddyliau dynion. Dim ond trwy ddyfodiad Teyrnas Dduw, sef y cyflwr o fodolaeth lle mae pobl yn byw yn ôl ewyllys Duw, y daw heddwch parhaol i'w fyd.

Yn ail, cefnogi a chyfrannu'n ariannol i apêl frys Cymorth Cristnogol. Mae eu partneriaid eisoes yn gweithio o dan bwysau a pherygl personol anferth yn Gaza, lle mae hanfodion bywyd fel dŵr, bwyd, cysgod a chymorth meddygol yn brin. Ac wrth i'r cannoedd o filoedd ffoi rhag y bomio yng ngogledd Gaza i ran ddeheuol y diriogaeth fechan a phoblog iawn honno, mae partneriaid Cymorth Cristnogol ymhlith y nifer o fudiadau dyngarol eraill sy'n darparu hanfodion fel moddion i gleifion sydd â salwch difrifol, ceginau bwyd, a matresi i bobl gysgu arnynt. Mae'r elusen hefyd yn trafod ffyrdd o gefnogi Iddewon sydd wedi dioddef oherwydd y trais.

Wrth gofio'r rhai fu farw yn rhyfeloedd ddoe y Sul hwn, onid oes mwy o ddyletswydd arnom i gofio'r rhai sy'n dal i golli anwyliaid a chartrefi yn rhyfeloedd heddiw, a gwneud yr hyn allwn ni fel Cristnogion i geisio lleddfu ychydig ar eu poen?

**Alun Lenny**

## Gaza

Gwae dyn pan gwyd y mwg du – o Gaza,
Gwae oes yr ynfydu;
Anialwch lle'r oedd teulu,
Rwbel tawel lle'r oedd tŷ.

A gwae hil â'i hamdo gwyn – yn lapio
Einioes lipa'r plentyn;
Y ddaear sy'n galaru'n
Wylo twym wrth weled hyn.

Ond draw'n y coed orennau – deil i'w gweld
Y dail gwyrdd ar frigau,
A daw dydd yr hen dristâu
Yn adeg casglu'r cnydau.

**Robat Powell**



# CYNGOR YR UNDEB A'I ADRANNAU



Yn ystod mis Hydref cyfarfu adrannau unigol Cyngor Undeb yr Annibynwyr yn rhithiol wythnos cyn cynnal cyfarfod llawn o'r Cyngor yn Aberystwyth i drafod agendâu'r adrannau yn helaethach fel Cyngor cyflawn.

Dyma grynodeb o gofnodion o'r **Adran Dinasyddiaeth Gristnogol**, a gynhaliwyd dros Zoom ar bnawn Iau 12 Hydref o dan gadeiryddiaeth Emlyn Davies (yn y llun), gan Rhodri-Gwynn Jones, Ysgrifennydd yr Adran.

**1. Materion Cytûn**
Enwebwyd y Parchg Emlyn Dole i gynrychioli'r adran ar Grŵp Laser Cytûn.

- **Sul Cofio Covid**
Dylid sefydlu diwrnod o fyfyrdod ledled y DU a'i gynnal yn flynyddol ar ddydd Sul cyntaf mis Mawrth. Mae Cytûn yn cydlynu cyflwyniad gan eglwysi a grwpiau ffydd eraill ar gyfer gwrandawiadau am benderfyniadau Llywodraeth Cymru fel rhan o Ymchwiliad Covid-19 y DU.

- **Canmlwyddiant Apêl Arloesol yr Eglwysi am Heddwch 2025**
Mae Canolfan Cymru dros Faterion Rhyngwladol (WCIA), yn awyddus i gydweithio gydag olynwyr yr enwadau a arwyddodd Apêl yr Eglwysi am Heddwch yn 1925, i ymchwilio ymhellach i'r hanes, ac yna ei ddathlu yn 2025. Gwahoddwyd yr Undeb a'r Cyfundebau i ystyried cyfrannu tuag at yr ymgyrch.

**2. Eglwysi Dementia gyfeillgar**
Mae ymweliadau â'r Cyfundebau i gyflwyno cynnwys *Heulwen dan Gymylau* yn parhau, a bydd fideo newydd ar gael yn fuan. Nodwyd bod mewnbwn CWM yn gymorth i rannu'r cynnwys yn eang dros y byd trwy gyfrwng fideo arbennig yn Saesneg.

**3. Gweithgor Economi Bywyd a Newid Hinsawdd**

- Ni lwyddwyd hyd yma i gynnull pobl ifanc i gynnal trafodaeth. Awgrymwyd cynnig cyfres o weminarau / fforymau trafod ar y 5 pwnc dan sylw (Dillad / Bwyd / Teithio / Ynni / Meddylfryd).
- Mewn partneriaeth ag A Rocha UK yng Nghymru, nodwyd llwyddiant Carthen Gobeithion gyda phlant iau yn ystod Eisteddfod yr Urdd, Llanymddyfri. Awgrymwyd y dylid annog ysgolion Sul i gyfrannu / gwneud ffilm, yn seiliedig ar y pum pennawd?

**5. Apêl Ffynhonnau Byw Undeb yr Annibynwyr Cymraeg / Cymorth Cristnogol 2023/24**
Nodwyd bod y cyfan o'r wybodaeth bellach ar wefan yr Undeb.

**6. Cenhadu (sef trafodaeth ar benderfyniad y Cyfarfodydd Blynyddol 2023)**
Dylid holi'r Cyfundebau am adborth ynglŷn â darpariaeth nwyddau masnach deg yn eu hardaloedd, ac am ymrwymiad eglwysi i fasnach deg.

**7. Gohebiaeth gan Gyngor Eglwysi'r Byd: Cydgytundeb ar Eciwmeniaeth Wrth-hiliol (CARE)**
Bydd y Llywydd yn cynrychioli'r Undeb yn y cyfarfod cyntaf ar-lein ar 31 Ionawr 2024.

**8. Pecyn hybu cynwysoldeb i blant o deuluoedd LHDTC**
Rhoddwyd sêl bendith ar becyn gwybodaeth i deuluoedd LHDTC.

**9. Ymateb i un o bynciau llosg y dydd**
Dwyrain Canol – cyhoeddwyd datganiad ar wefan yr Undeb ar 14 Hydref 2023:

https://www.annibynwyr.cymru/cy/blog/post/apel-cymorth-cristnogol-ar-gyfer-y-dwyrain-canol

Yr Adran Gydenwadol

TACHWEDD 9 2023 RHIF 141

# Cofio'r gorffennol a'r presennol ar Sul y Cofio 2023

Dydd Sul, 12 Tachwedd, bydd miliynau o bobl ar hyd a lled y byd yn ymgynnull o flaen cofebion neu'n dod ynghyd mewn capeli ac eglwysi i gofio am fywydau a gollwyd mewn rhyfeloedd byd. Yma mae Aled Davies yn ein hatgoffa o'i arwyddocâd arbennig eleni mewn cyfnod o densiynau a rhyfela.

Cynhelir Sul y Cofio yn draddodiadol ar yr ail Sul ym mis Tachwedd, y Sul agosaf at 11 Tachwedd – a diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf am 11 o'r gloch ym 1918. Dyma'r unfed awr ar ddeg ar yr unfed dydd ar ddeg o'r unfed mis ar ddeg. Ar y diwrnod hwn yn Llundain bydd y brenin yn gosod y dorch gyntaf ar y Senotaff, gan gael ei ddilyn gan aelodau eraill o'r teulu brenhinol. Yna, bydd arweinwyr y gwahanol bleidiau gwleidyddol yn gosod torchau, ac yn eu mysg bydd Prif Weinidog Cymru. Mae'r seremoni hon wedi ei darlledu'n fyw gan y BBC ers 1946. Yng Nghymru cynhelir gwasanaeth arbennig yng Nghaerdydd ac mewn sawl ardal arall ledled y wlad, a bydd arweinyddion y gwahanol bleidiau gwleidyddol ac arweinwyr crefyddol o bob ffydd yn ymgynnull i gofio a thalu teyrnged.

**Y Pabi Coch a'r Pabi Gwyn**

Ers 1921 mae'r Lleng Prydeinig wedi trefnu bod y pabi coch yn cael ei wisgo er mwyn coffáu'r bywydau a gollwyd mewn rhyfeloedd byd, a hefyd fel ffordd o gasglu arian i deuluoedd y rhai a arteithiwyd gan ryfel. Erbyn hyn, mae llawer yn dewis gwisgo'r pabi gwyn, sy'n symbol o geisio heddwch yn ein byd, ac mae'r arferiad hwn yn mynd yn ôl i'r flwyddyn 1926.

**Gweddi wrth edrych ar y Pabi Coch**

Arglwydd, cofiwn am yr holl bobl a gollodd eu bywydau mewn rhyfeloedd – gwŷr ifanc a merched a wynebodd fwled a magnel, a gollodd chwys a gwaed, a anafwyd mewn corff, meddwl ac enaid, a gollasant eu bywydau yn y drin. Gweddïwn dros deuluoedd y rhai a gollwyd: mamau a thadau, gwragedd a phlant a dreuliodd oes yn galaru am eu hanwyliaid a gollwyd ar faes y gad. Ac wrth gofio'u hymdrech a chan feddwl am y teuluoedd sy'n bryderus am eu hanwyliaid o hyd, gweddïwn y bydd dy dangnefedd di, sydd uwchlaw pob deall, yn gweinidogaethu i bob ofn, galar a phoen eto heddiw. Er mwyn Iesu Grist. Amen.

**Gweddi wrth edrych ar y Pabi Gwyn**

O Arglwydd, agor fy llygaid fel y medraf weld anghenion pobl eraill. Agor fy nghlustiau fel y medraf glywed eu cri. Agor fy nghalon fel na fydd angen iddynt fod heb ymgeledd. Paid â gadael i mi fod ag ofn amddiffyn y gwan oherwydd dicllonedd y cryf. Dangos i mi lle mae angen ffydd, gobaith a chariad. Defnyddia fi i'w dwyn i'r mannau hynny sy'n anghenus. Felly, agor fy llygaid a'm clustiau fel y medraf yn ystod y dydd hwn gyflawni rhyw weithgarwch o heddwch er dy fwyn. Amen.



## Byd terfysglyd 2023

Eleni, wrth goffáu ac edrych yn ôl, bydd ein meddyliau'n naturiol yn y presennol, a realiti byd lle mae ymladd a brwydro'n dal i lenwi penawdau'r papurau newydd. Mae'r rhyfela'n parhau rhwng Rwsia ac Wcráin, a'r difrod a'r lladd yn parhau. Ac ers mis bellach, yn dilyn ymosodiad gan Hamas ar Israel, mae'r tensiynau yn y Dwyrain Canol wedi dwysáu, a'r rhyfela rhwng Israel a Gaza wedi arwain at golli miloedd o fywydau, ac mae miliynau hefyd wedi colli eu cartrefi. Mae'r ddau babi – y coch a'r gwyn – yn ein hatgoffa o hyd o'r byd amherffaith rydym yn byw ynddo, a'r angen i ninnau weithredu a gweddïo dros heddwch. Gweddïwn yn daer felly dros gyfiawnder a heddwch i'n byd.

Arglwydd Dduw, dragwyddol Dad, fe'n creaist ni ar dy lun a'th ddelw dy hun. Ond mae ein pechod wedi gwyrdroi meddyliau pobl a thrwy'r byd gwelwn y ddelw wedi'i hanharddu. Ar draws y byd gwelwn lawer o anghyfiawnder ac esgeuluso hawliau pobl eraill a'n cyfrifoldeb personol. Gweddïwn yn arbennig eleni dros y sefyllfa dorcalonnus yn Israel a Gaza, gan ymbil am heddwch a diwedd ar y trais a'r rhyfela. Gweddïwn hefyd dros bawb sy'n gweithredu i geisio cymod, a thros y gwasanaethau argyfwng brys sy'n cynnig cymorth dyngarol o dan amgylchiadau anodd a pheryglus. Cofiwn hefyd am y rhyfel sy'n parhau yn Wcráin, a'r miliynau sydd wedi'u dadleoli yno. Gweddïwn dros deuluoedd pawb ym mhob man sydd wedi colli anwyliaid o ganlyniad i ryfeloedd diweddar.
Arglwydd, trugarha wrthym.

Arglwydd Iesu Grist, Ti yw ein heddwch ni. Ond cefaist dy gloi allan o galonnau a meddyliau pobl. Pan nad yw dy deyrnas, dy ras, dy ffydd a'th arglwyddiaeth yn cael eu croesawu, caiff dioddefaint, anghyfiawnder a llygredd gartrefu yn eu lle. Arglwydd, wylwn am fod llygredd ac anonestrwydd, hunanoldeb, anghyfiawnder a thrais yn cerdded coridorau grym. Arglwydd Dduw, yn dy drugaredd tosturia wrthym, wrth ein llywodraethwyr, ein harweinwyr a'r rhai sydd mewn awdurdod.
Arglwydd, trugarha wrthym.

O Ysbryd Glân, gweddïwn dros y rhai sydd mewn awdurdod. Cyflwynwn hwy i ti, gan weddïo y cawn ein tywys yn ffordd uniondeb a thangnefedd.
Gweddïwn, Arglwydd tirion, ar i Ti unioni pob camwedd a sicrhau hawliau'r rhai sy'n cael eu cam-drin neu eu llethu gan anghyfiawnder eu hamgylchiadau.
Cadwa ni, o Dad nefol, rhag camu'r tu hwnt i'n hawdurdod. Ti a ddywedodd: 'Myfi piau dial. Myfi a dalaf yn ôl.' Ymddiriedwn yn dy gyfiawnder, yn dy ffyddlondeb i'th gymeriad a'th addewidion.
Ond Arglwydd, gweddïwn y bydd y gras a'r cariad a gusanodd euog fyd yn diddanu'r trist, yn dwyn cyfiawnder a heddwch i bawb sy'n cael eu gorthrymu gan eraill. Yn dy drugaredd, cofia'n byd ac adfer y greadigaeth oll i gyflawnder ac undod perffaith yn Iesu Grist.
Arglwydd, trugarha wrthym yn Iesu Grist, ein Harglwydd, Amen.

# Bendith y 70au



Ddydd Sadwrn, 21 Hydref, daeth oddeutu hanner cant o bobl i'r Drenewydd i gynhadledd 'Bendith y 70au' i hel atgofion a dathlu'r fendith ysbrydol a welwyd yng Nghymru hanner can mlynedd yn ôl.

I lawer o bobl, o'r tu allan ond hefyd oddi mewn i'r eglwysi, sydd wedi arfer meddwl am y blynyddoedd o ddechrau'r chwedegau hyd y presennol fel cyfnod o ddirywiad ysbrydol yng Nghymru, mae'n bosibl bod unrhyw sôn am fendith yn od a dieithr. Onid dirywiad sydd wedi nodweddu'r blynyddoedd hyn? Onid llesgedd ysbrydol a welodd y mwyafrif ohonom am ran helaethaf o'n hoes yng Nghymru?

Ond i unrhyw un a fu'n rhan o'r cynnwrf ysbrydol a'r gweithgaredd Cristnogol ym mlynyddoedd cynnar y saithdegau, nid dyna'r stori gyflawn. A bwriad y criw o gyfeillion a drefnodd y gynhadledd oedd adrodd peth o hanes y cynnwrf, ac yn benodol yr hyn a ddigwyddodd yng ngholegau Aberystwyth a Bangor, gan hel atgofion a dathlu'r hyn a wnaeth Duw'n rymus yn eu plith, i'n hatgoffa hefyd o'r hyn y gall eto'i gyflawni.

Un ysgogiad i drefnu'r gynhadledd oedd y ffilm *73* a gynhyrchwyd gan Gwyn Rhydderch ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan ym mis Awst. Mae'n adrodd stori'r cynnwrf ysbrydol a welwyd yn Llŷn ac Eifionydd ddechrau'r saithdegau ac a gyrhaeddodd ei anterth ym 1973 (I weld y ffilm, ewch i https://youtu.be/eVEVPYGojao). Mae'n fwriad i gynhyrchu ffilm debyg i gofnodi'r hyn a ddigwyddodd yn y colegau yn yr un cyfnod ac yn fuan wedi hynny. Gobaith trefnwyr y gynhadledd hwythau oedd cofnodi'r hanes, rhag iddo fynd yn angof, o sylweddoli cyn lleied yr ysgrifennwyd amdano.

Cadeiriwyd y gynhadledd gan John Treharne. Yn sesiwn cyntaf y bore, gosododd Wyn James y cyfnod yn ei gyd-destun hanesyddol: canrif o ddirywiad ar lawer ystyr fu'r ugeinfed ganrif i'r eglwysi yng Nghymru, ac eto gwelwyd adfywiad mewn gwahanol ardaloedd a chyfnodau. Dangosodd hefyd fod yr hyn a ddigwyddodd yn gyson â'r adfywiad ysbrydol a gafwyd mewn cyfnodau mwy llewyrchus, hyd yn oed yng nghyfnod Pantycelyn. Yn yr ail sesiwn, soniodd Hywel Meredydd Davies am y cynnwrf a welwyd ym Mangor o 1973 ymlaen gan gyfeirio at brysurdeb y Gymdeithas Gristnogol a'r modd y bu Duw ar waith yn troi llawer at Grist yn ogystal â chadarnhau llawer a oedd eisoes yn Gristnogion cyn cyrraedd Bangor.

Wedi orig ddifyr dros ginio cafwyd dau sesiwn yn y prynhawn. Yn y cyntaf, bu Sylvia Prys a Dafydd Picton Jones yn rhannu eu profiad o'r cynyrfiadau yn Aberystwyth, a soniodd Arfon Jones am ei brofiad fel Cristion ifanc yn Nyffryn Clwyd cyn iddo yntau fentro i Fangor. Yn yr ail, cafwyd rhagor o atgofion am Bangor gan Densil Morgan, Gwenan Job a Catrin Roberts tra soniodd Bryn Williams am ei brofiad o ddod i ffydd cyn dyddiau coleg.

I weld a chlywed yr holl gyfraniadau, ewch i https://www.youtube.com/playlist?list=PLH4JpblhvRT4QzvDHpdnP1Iuh7uAWE7OW

Mae'n debyg bod mwyafrif y gynulleidfa yn fyfyrwyr ym Mangor neu Aberystwyth yn y cyfnod dan sylw. Iddynt hwy, roedd yr atgofion yn felys, a braf oedd cael edrych 'nôl ar beth o'r hanes. Ond wrth gofio'r fendith a'r holl weithgarwch – y cyfarfodydd gweddi a'r astudiaethau Beiblaidd, y cyfarfodydd trafod a'r oedfaon a'r ysgolion Sul, yr encilion a'r ymgyrchoedd, y pregethau a'r cenhadu a'r efengylu, y tröedigaethau a'r gwrthwynebiad – yr un peth a bwysleisiwyd oedd bod Duw ar waith trwy ei Ysbryd Glân. Ac un peth sy'n ein hatgoffa o hynny yw'r modd y gwelwyd pobl yn dod i ffydd yng Nghrist yn y cyfnod hwnnw mewn rhannau eraill o'r wlad heblaw'r colegau, a llawer ohonynt yn gwbl ddigyswllt â'i gilydd.

Hawdd yw rhamantu ynghylch yr hyn a ddigwyddodd, fel y cydnabu mwy nag un o'r cyfranwyr. Ac o gofio nad pawb a fu'n rhan o'r fendith sy'n dymuno edrych 'nôl ar y cyfnod, hawdd deall pam y byddai eraill yn tybio nad yw'r cyfan o ddiddordeb iddynt hwythau. Ond awgrymaf mai camgymeriad fyddai hynny am o leiaf ddau reswm.


Yn gyntaf, mae'n werth adrodd am waith Duw yn bywhau ac adfywio. Mae'n dda dysgu am ddiwygiadau'r canrifoedd; ond mae'n dda hefyd i ni wybod am waith grymus a gyflawnodd Duw'n fwy diweddar ac o fewn cof llawer ohonom.

Ac yn ail, ac yn arbennig o berthnasol i'n heglwysi anghydffurfiol a'u haelodau, yr oedd bendith y saithdegau'n ddylanwadol o ran parhad y dystiolaeth Gristnogol yn ein plith am fod cynifer o weinidogion a fu'n gwasanaethu'r eglwysi wedi hynny yn blant y fendith. Pe na byddai amryw ohonynt wedi dod i brofiad o ras Duw bryd hynny, go brin y byddent erioed wedi ymdeimlo â galwad Duw i'r Weinidogaeth.

*John Pritchard*

# *Gair Duw ar Waith*
## gan Denzil I. John

### Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd




**Pennod 7**
**'Y Gair ar waith' – Rhannu'r Gair ag eraill**
**Nehemeia 8:9–12 | 12 Tachwedd**

### Gweddi
Diolch, Arglwydd, am y fraint o fedru darllen ac am y cyfle i ddarllen dy Air yn ein hiaith ein hunain. Yn ein myfyrdod heddiw diolchwn am waith yr eglwys yn trosglwyddo'r testun Beiblaidd mewn ieithoedd a chyfryngau cyfaddas â gofyn pobl. Helpa ni i fod yn gefnogwyr da ac yn gyflwynwyr effeithiol o'th wirionedd di i eraill. Amen.

### Darlleniad: Nehemeia 8:9–12
'Buont yn sefyll yn eu lle am deirawr yn darllen o lyfr cyfraith yr Arglwydd eu Duw.' (Nehemeia 9:3)

### Cyflwyniad
Rhan o waith amlwg pob eglwys yw tynnu sylw at y Beibl a chyflwyno neges y Beibl i bob llwyth, gwlad ac iaith. Bu Cymru yn ffodus fod yr Ysgrythur wedi cael ei chyfieithu i'r Gymraeg gan fawrion ymroddedig fel William Salesbury a William Morgan, a byddwn yn cofio gwaith y cyfieithwyr a'r esbonwyr hyd at heddiw. Pan ddarllenodd Esra yr Ysgrythur Iddewig i'r genedl oedd wedi dychwelyd o Fabilon yn y bumed ganrif cyn Crist, cafwyd effaith chwyldroadol ar y genedl, a cheir llu o hanesion am Air Duw yn dwyn pobl i feddwl o ddifrif am eu bywydau eu hunain, a'u diffyg perthynas â Duw. Roedd y genedl wedi colli sylwedd ei hunaniaeth, yn wleidyddol ac yn grefyddol, ac ar ôl y profiadau trawmatig yn yr Aifft, wrth ddychwelyd i Jerwsalem, roedd angen deffroad ysbrydol arnynt.

Cofir am effaith tystiolaeth Philip ar yr eunuch yn yr anialwch (Actau 8), ac mae pobl fel John Wesley a William Williams, Pantycelyn, yn enghreifftiau o bobl a gafodd dröedigaeth neu adnewyddiad ffydd wrth wrando ar bregethu'r Gair. Cred a phrofiad yr eglwys yw fod clywed y Gair yn cael ei ddarllen a'i gyhoeddi yn chwyldroi person fel ei fod/ei bod yn edrych at Grist ac yn profi bywyd newydd.

### Myfyrdod
Bydd darllen llenyddiaeth Cymdeithas y Beibl yn cynnwys enghreifftiau cyfoes o ddiwygiadau. Pobl a dderbyniodd gopïau o'r Beibl yn eu hiaith ugain mlynedd yn ôl yw trigolion Swaziland, gwlad yn ne-ddwyrain cyfandir yr Affrig sy'n ffinio â De'r Affrig a Mozambique. Cenedl fechan yw hon gyda 1.2 miliwn o bobl a 85% ohonynt yn Gristnogion, a thraean o'r boblogaeth yn ennill llai na phunt y dydd. Mesur o'i harswyd yw bod chwarter ei hoedolion yn byw gyda HIV a bod chwarter y plant o dan 17 oed yn amddifad.

Dyfynnir Albert, gŵr 54 oed a dderbyniodd Feibl yn 2016, yn dweud, 'Rwy'n byw am fod yr Arglwydd gyda mi, a phan ddarllenaf y Beibl hwn bydd fy enaid yn cael ei adnewyddu.' Ar yr un daflen sonnir am greu fideo o hanesion Beiblaidd ar ffurf arwyddo ar gyfer y byddar. Dywed Cymdeithas y Beibl fod hyn yn costio £900 y stori. Efallai y gallai eglwys roi nod iddynt eu hunain i ariannu hyn yng nghorff blwyddyn a'i alw yn 'Air ar waith'.

Mae'r Beibl yn ffynhonnell gobaith i'r bobl hyn ac apêl Cymdeithas y Beibl yw bod y rhai sy'n berchen ar Feiblau ac yn rhydd i addoli fel y mynnont yn estyn rhodd i gynorthwyo'r mentrau hyn sy'n dod â Gair Duw yn fyw i drigolion gwledydd fel Swaziland. Tybed a ydym ni'n darllen y Beibl yn gyson gan ofyn beth mae Duw yn ei ddweud wrthym? Nid mater o ddarllen yn unig ydyw ond agor ein heneidiau ein hunain i wrando ar Dduw yn siarad gyda ni.

### Gweddi
Diolch, nefol Dad, am Gymdeithas y Beibl a'i gwaith chwyldroadol. Deisyfwn y bydd yn parhau i drosglwyddo'r Efengyl i iaith y gwledydd llai fel bod modd iddynt brofi rhyfeddod dy wahoddiad i bobl gredu yn Iesu a'i fyw bob dydd. Amen.

### Cwestiynau i'w hystyried
1. Pa mor aml fyddwn ni'n darllen y Beibl, neu a oes perygl i ni ddarllen adrannau sy'n gyfarwydd ac yn gysurlon i ni a dim llawer mwy?

2. Roedd cyfnod Esra a Nehemeia yn gyfnod dychweliad ac adferiad y genedl Hebreig i Jerwsalem, a bydd pob chwyldro crefyddol yn dechrau gyda chymryd Duw a'i dystiolaeth o ddifrif. A fyddwn yn darllen y Beibl er mwyn gallu rhyfeddu at fawredd a gallu Duw?

3. Bydd rhai am glywed cyfieithiad John Davies (1620) o'r Beibl, tra bydd eraill am ddarllen Beibl.net, cyfieithiad diweddar Arfon Jones o'r Ysgrythur. Beth yw eich dewis chi, a pham?

4. Yn y rhifyn mis Hydref 2023 o gylchgrawn Cymdeithas y Beibl, *Word in Action*, sonnir am fersiynau mewn tafodieithoedd amrywiol yn China gan nad oedd y genhedlaeth hŷn yn deall y fersiwn ym mhrif iaith China. A ydym yn cefnogi gwaith y Gymdeithas ac yn estyn rhodd iddynt er mwyn ei hyrwyddo?

5. A oes ysgol Sul neu ddosbarth Beiblaidd yn eich eglwys? Os nad oes, beth am sefydlu un?

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 12 Tachwedd, am 7.30yh**
Bydd Ryland Teifi yn nodi Sul y Cofio wrth i'r ymdrech barhau dros heddwch yn y Dwyrain Canol. Daw'r emynau o Ganolfan Soar, Merthyr Tudful

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 12 Tachwedd, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r Parchedig Rhun ap Robert, Bro Enlli

**Sul, 12 Tachwedd, am 12yp**
Oedfa ar Sul y Cofio yng ngofal Gethin Matthews

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# TRAFOD CYDENWADOL YNG NGOGLEDD PENFRO

Daeth tua 60 o bobl ynghyd yn neuadd Maenclochog ganol fis Hydref i drafod dyfodol ein heglwysi yn y dyddiau heriol hyn. Tyfodd hedyn y syniad am y cyfarfod hwn o gwrdd diaconiaid ym Mhen-y-bont, Cas-blaidd y llynedd. Gydag ymddeoliad y Parchg Geoffrey Eynon ar y gorwel, rhaid oedd trafod y ffordd ymlaen i'r ofalaeth. Trefnwyd hysbyseb yn gofyn a oedd eglwysi eraill eisiau ymuno â'r ofalaeth, ac a oedd diddordeb gan gapeli i gyfarfod i drafod y dyfodol.

Penderfynwyd ehangu'r drafodaeth a chyflwynwyd y syniad i Gwrdd Chwarter Cyfundeb Annibynwyr Penfro ym Mrynberian, lle derbyniwyd yr awgrym yn unfrydol a bwriwyd ati i drefnu cyfarfod pellach. Roedd hi'n galonogol i weld cynifer wedi ymgynnull mewn ysbryd o gyd-weithio er mwyn sicrhau dyfodol achos Crist yng ngogledd Sir Benfro.



### Cyfnewid syniadau positif

Cafwyd arweiniad i'r prynhawn gan y Parchedigion Dyfrig Rees (Annibynwyr), Judith Morris (Bedyddwyr), Martin Spain (yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig) ac Ainsley Griffiths (yr Eglwys yng Nghymru), ac ar ôl lluniaeth ysgafn a baratowyd gan Mr Ian Eynon, cafwyd hanner awr o drafodaeth mewn grwpiau.

Pwrpas y grwpiau trafod oedd cyfnewid syniadau positif ac ymarferol bydd yn ein galluogi i gynnal ein heglwysi, ychwanegu at ein cynulleidfaoedd ac wynebu'r dyfodol gyda hyder ac optimistiaeth. Bu'r drafodaeth yn fywiog a chasglwyd nifer o syniadau diddorol at ei gilydd. Bydd ysgrifennydd y Cyfundeb nawr yn trefnu a dosbarthu'r syniadau i'r sawl oedd yn bresennol, ac i'r rhai oedd yn methu bod yn y cyfarfod.



**Dydd Gweddi'r Byd**
Yr Is-bwyllgor Cymraeg (Rhyngenwadol)

Cynhelir
**Cynhadledd**
yn Eglwys Gydenwadol Emaus, Bangor
Dydd Mercher, 15 Tachwedd 2023
10yb tan 1yp

**Thema**
Rwy'n erfyn arnoch i oddef eich gilydd mewn cariad
Paratowyd y Gwasanaeth ar gyfer 2024
gan ferched Palesteina

Cyfle i baratoi ar gyfer Dydd Gweddi 2024

Croeso cynnes i bawb.

**Dydd Gweddi'r Byd**
Yr Is-bwyllgor Cymraeg (Rhyngenwadol)

Cynhelir
**Cynhadledd**
yn Eglwys Gydenwadol Emaus, Bangor
Dydd Mercher, 15 Tachwedd 2023
10yb tan 1yp

**Thema**
Rwy'n erfyn arnoch i oddef eich gilydd mewn cariad
Paratowyd y Gwasanaeth ar gyfer 2024
gan ferched Palesteina

Cyfle i baratoi ar gyfer Dydd Gweddi 2024

Croeso cynnes i bawb.

### Cwrdd eto yn y flwyddyn newydd

Bydd cyfarfod arall ym mis Chwefror pan fydd cyfle gyda'r eglwysi i rannu unrhyw ddatblygiadau positif sydd wedi digwydd ers y cyfarfod hwn a thrafod y ffordd ymlaen yn fanylach. Cynigwyd i drefnu amser a fydd yn fwy cyfleus i'r rhai ifanc sy'n gweithio yn ystod y dydd. Cyn cyhoeddi'r fendith, diolchodd y Parchg Ken Thomas, Llywydd y Cyfundeb, i bawb am eu cefnogaeth a'u harweiniad.

# Barn Annibynnol

## Newid y drefn

Rydw i wedi hen ddiflasu ar glywed aelodau ffyddlon yng nghapeli Cymru yn canu tiwn gron. 'Dim ond un neu ddwy oedfa'r mis sydd gyda ni nawr … a hynny'n unig pan allwn ddod o hyd i bregethwr.'

Credaf ei bod yn hen bryd i ni newid ein disgwyliadau dinistriol gan ofyn yn onest, 'Beth yw oedfa?' Ai perfformans neu gyfarfod o bobl mewn 'tŷ cwrdd' yw hi? Ai eistedd yn dawel a disymud am awr, ond am godi i ganu ryw 4 emyn? Ai un person sy'n bwysig neu'r gwmnïaeth – ffrindiau yn cefnogi a chynnal ei gilydd i fyw'n Gristnogol? Beth sydd o'i le ar sgwrsio da a pherthnasol?


Y rhwystr cyntaf yw'r hen esgus, 'Ddoes 'da fi ddim digon o wybodaeth, na'r dalent, i gyfrannu.' Tra bo'r person sy'n dweud hynny yn aml mewn swydd gyhoeddus ac yn arweinydd ar griw o bobl ac sy'n ennill cyflog da, er nad yw hyn i gyd yn bwysig.

Oes modd i ni wneud pethau'n wahanol? Ydy'n disgwyliadau wedi tyfu ar gam?

### Cwrdd dros fwyd

Pryd glywsoch chi am eglwys yn dod ynghyd ar fore Sul i frecwasta? Does dim angen dim byd mwy na Corn Flakes a thost. Wrth gwrs, os taw oedfa brynhawn neu hwyrol sydd gennym, gellid cynnal te prynhawn, gan wneud yn siŵr fod gwahoddiadau i bawb yn yr ardal ddod ynghyd, gyda digon o hysbysebu pwrpasol.


Brecwast, neu de … Beth all ddigwydd wedyn?




1. Beth am ddechrau gyda sgwrs am stori fwya calonogol yr wythnos - yn codi o'r teledu, y papurau dyddiol ac ati? Storïau sydd â blas daioni a chariad ynddynt.
2. Wedyn symud ymlaen i newid byd – at storïau heriol neu ddinistriol sy'n torri calon – gan geisio synhwyro a oes ateb Cristnogol iddyn nhw, ac i annog ymateb empathetig.
3. Rhai munudau wedyn (wedi eu paratoi ymlaen llaw) yn dyfynnu rhywbeth creadigol o lenyddiaeth Cymorth Cristnogol, Cristion, Cymdeithas y Beibl, *Y Tyst* neu baragraff neu ddau o lyfr. Mae Aled Davies a'r Cyngor Ysgolion Sul â mwy na digon i'ch helpu fan hyn gydag adnoddau parod. Neu beth am fideo?
4. Ar ôl hyn, dau neu dri darlleniad o'r ysgrythur, yn dilyn trefn y llithiadur. Mae'r drefn honno ar gael ym mlwyddiadur yr enwad o Dŷ John Penri, neu ar-lein. Wedyn beth am gymryd cyfle i rannu sylwadau byrion ar yr hyn sy'n codi o'r darlleniadau?
5. Dod i ben â'r oedfa wrth ddarllen neu ganu emyn moliannus, gweddi a Gweddi'r Arglwydd.

### Tri neu bedwar brwd

Beth yw manteision hyn? Does dim rhaid wrth ryw berson arbennig iawn i fod wrth y llyw, nac angen llyfrgell fawr. Gorau oll os oes un neu ddau sy'n effro i'r hyn sydd ar y farchnad, neu sy'n gyfredol. Does dim angen mwy na thri neu bedwar brwd i wneud i hyn weithio. Ymhen amser, byddai modd adeiladu casgliad o adnoddau. Wrth fod yn frwd i estyn gwahoddiad i bobl yr ardal, mae cyfle i sgwrsio am anghenion a chyfleoedd i weithredu yn y cylch. Ofer son am gariad os nad ydym yn gynnes, ac ofer meddwl am genhadu os nad ydym yn cynnig gwasanaeth.




### Troi cefn ar fethiant

Beth amdani? Does dim yn sicrach na bod ein trefn bresennol wedi methu'n ddifrifol, ac yn dal i fethu. Mae canrif o fethiant y tu ôl i ni erbyn hyn. Beth am adrodd yn *Y Tyst* os byddwch yn mentro ar drefn Newydd? Rhowch wybodaeth am ganlyniadau mabwysiadu trefn debyg i fy awgrym. Does dim hyd yn oed angen grant wrth Undeb yr Annibynwyr i wneud y peth i weithio.

O.N. Os yw'ch cynulleidfa'n fwy na 15 mewn nifer, byddai'n well hollti'n ddau grŵp a chyfarfod ar wahân er mwyn hwyluso'r drafodaeth. Ond gallwch gynnal eich brecwast neu de hwylus i griw o unrhyw faint!

**Eirian Rees**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Sul Sbesial Cyfundeb Ceredigion



Hyfryd oedd gweld cynifer wedi dod ynghyd i ymuno yng ngweithgareddau Sul Sbesial Cyfundeb Ceredigion, a gynhaliwyd yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog ar 24 Medi. Cymerwyd rhan yn y neuadd gan ddisgyblion o ysgolion Sul, Tabernacl, Pencader; Pencae, Llanarth; Llwyncelyn; Glynarthen; Pisgah a Thalgarreg, gyda'r oedolion yn ymuno yn y mawl a'r hwyl.

Braint oedd cael neges ysgrythurol gan Nigel Davies ac aethpwyd ymlaen i fwynhau holl atyniadau Gwersyll yr Urdd. Gyda diolch am gymorth ariannol Cronfa Plant a Phobl Ifanc Cyfundeb Eglwysi Annibynnol Ceredigion a phwyllgor Cymraeg Dydd Gweddi'r Byd. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

*Lluniau:* Nigel Davies gwestai; Rhian Evans, organydd; Karine Davies a'r Parchg Carys Ann a fu'n trefnu'r Sul Sbesial; Catrin Owens Evans a fu'n arwain y canu; Keith Evans, cadeirydd Cwrdd Chwarter Cyfundeb Ceredigion a'i briod Eirlys. Nigel Davies yn annerch y dyrfa. Rhan o'r gynulleidfa a ddaeth ynghyd i addoli mwynhau holl atyniadau y gwersyll.

**Karine Davies a Carys Ann**

# TRI GWEINIDOG YN ARWAIN OEDFA!



Roedd oedfa fore Sul 29 Tachwedd Gofalaeth Bro Cerwyn yng nghapel Tabernacl, Maenclochog, Sir Benfro yn achlysur arbennig. Roedd tri gweinidog yn cymryd rhan, y tri wedi ymddeol a'r tri wedi'u magu o fewn rhyw ddwy filltir i'w gilydd. Magwyd y Parchg Geoffrey Eynon, 65 oed, (ar y chwith) ym Maenclochog; y Parchg Ken Thomas, 79 oed, ym mhentref Rhos-y-bwlch a'r Parchg Cerwyn Davies, 96 oed, ym mhentref Twffton.

## Rhannu'r gwaith

Darllenodd y Parchg Eynon ran o'r bumed bennod o Lythyr Paul at y Galatiaid o beibl.net, gweddïwyd gan y Parchg Davies a chafwyd pregeth gan y Parchg Thomas ar y testun 'Un o ffrwythau'r ysbryd sef tangnefedd' gan bwysleisio'r angen i fyw yn heddychlon ymhlith ein gilydd.

## Llwybrau'r yrfa

Treuliodd Geoffrey Eynon ei yrfa yn weinidog ar gapeli yn Nhreletert a Chas-blaidd. Treuliodd Cerwyn Davies y rhan helaethaf o'i yrfa yn weinidog gyda'r Eglwys Unedig Brotestannaidd yng Nghanada gan gynnwys Eglwys Gymraeg Dewi Sant, Toronto. Ond ag yntau wedi 'ymddeol' dychwelodd i Gymru ar ddechrau'r ganrif gan ffurfio Gofalaeth Bro Cerwyn, yn cynnwys chwech o gapeli ei gynefin. Cyn 'ymddeol' drachefn, a dychwelyd i Ganada, trefnodd i ordeinio Ken Thomas yn weinidog a'i sefydlu i'w olynu. Roedd Cerwyn a Nora ei wraig, sydd hefyd yn hanu o'r fro, ar ymweliad byr i ymweld y tylwyth.